CEFNOGWCH WYTHNOS LLYFR YN ANRHEG

7-12 GORFFENNAF 2008

Fel un o brif ymgyrchoedd y Flwyddyn Darllen yng Nghymru, bydd yr ymgyrch hon yn canolbwyntio ar annog pobl o bob oed i roi llyfrau yn anrhegion i ffrindiau a theulu. Dyma ymgyrch y gall pawb drwy Gymru ymuno â hi, gan roi sylw gwych i lyfrau ac i ddarllen!

Gyda chefnogaeth papurau bro Cymru, mae'r gwaith o hyrwyddo **Wythnos Llyfr yn Anrheg** *eisoes ar y gweill a bydd yn parhau hyd at yr wythnos ei hun. Mae posteri a nodau llyfr lliwgar wedi eu cynhyrchu, a bydd y rhain yn cael eu dosbarthu'n eang i lyfrgelloedd a siopau. Gwneir ymdrech arbennig i sicrhau sylw yn y wasg a'r cyfryngau, gan ofyn i wahanol bersonoliaethau gyflwyno llyfrau i gyfeillion, a bydd hysbyseb radio arbennig yn cael ei chynhyrchu a'i darlledu'n eang er mwyn cyrraedd cynulleidfa mor fawr â phosibl.*

Bydd adran arbennig ar gyfer **Wythnos Llyfr yn Anrheg** *ar wefan y Flwyddyn Darllen (www.blwyddyndarllengenedlaethol.org.uk) a bydd cyfle yno i aelodau'r cyhoedd nodi pa lyfrau y byddan nhw'n eu rhoi'n anrhegion yn ystod yr wythnos.*

Mae darllen yn sgìl hanfodol ar gyfer pob agwedd ar fywyd ac mae'r Flwyddyn Darllen yn gyfle gwych i dynnu sylw at bwysigrwydd darllen ac i ddathlu pleser a mwynhad y gair ysgrifenedig. Gall darllen agor drysau i fydoedd newydd!

Cydlynir y Flwyddyn Darllen yng Nghymru gan Gyngor Llyfrau Cymru, gyda nawdd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Fy hoff lyfr...

Mae'r hyn mae person yn hoffi ei ddarllen yn dweud cyfrolau amdanynt. Gan ei bod hi'n Flwyddyn Ddarllen Genedlaethol, aeth Papur Pawb ati i holi dau o Gynghorwyr Cymuned Ceulanamaesmawr am eu hoff lyfrau Cymraeg.

Megan Mai

Mae Megan wedi byw yn Nhal-y-bont ers 1980 ar ôl iddi ddod yma i ddechrau i weithio yn Y Lolfa ym Mehefin 1978. Mae'n briod â Phil ac yn fam i Hedydd ac Eurgain. Erbyn hyn, mae Megan yn gweithio fel Uwch-Gynorthwy-ydd Personél yn Adran Addysg Cyngor Sir Ceredigion yn Aberystwyth. Yn ogystal â bod yn Is-Gadeirydd Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr, Megan yw Llywydd Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch ac Ysgrifennydd Cymdeithas Papur Pawb.

Papur Pawb: *Beth yw eich hoff lyfr Cymraeg?*

Megan Mai: *"Cysgod y Cryman" gan Islwyn Ffowc Elis*

PP: *Pam mai dyma eich hoff lyfr?*

MM: *Am ei fod yn hawdd ei ddarllen, mae iddo stori afaelgar sydd wedi'i hysgrifennu'n dda a chan i mi gael fy magu ym mwynder Maldwyn teimlwn fy mod yn adnabod Dyffryn Aerwen a'i bobl. Cyfrinach llyfr da yw eich bod yn cael pleser o fynd yn ôl i'w ailddarllen – mae hynny'n bendant yn wir am "Cysgod y Cryman".*

PP: *Pa lyfrau eraill rydych yn mwynhau eu darllen?*

MM: *'Rwyf yn mwynhau darllen yn fy amser hamdden ond yn anffodus mae'r amser sbâr yn brin! Rwy'n mwynhau darllen nofelau Cymraeg a Saesneg a gorau oll os oes iddynt ogwydd hanesyddol. Rwyf newydd ddechrau darllen "Dygwyl Eneidiau" gan Gwen Pritchard Jones ond rwyf yn mwynhau nofelau ysgafn hefyd megis "Omlet" gan Nia Medi a llyfrau Bethan Gwanas.*

2008
Blwyddyn Darllen
GENEDLAETHOL

Gerwyn Jones



Wedi ei fagu yn Nhal-y-bont, mae Gerwyn yn aelod newydd o'r Cyngor Cymuned ers mis Mai. Mae'n briod â Non ac yn dad i Glain Erin. Ym Machynlleth mae Gerwyn yn gweithio fel Swyddog Datblygu Rheilffordd i Bartneriaeth Rheilffyrdd y Cambrian. Fe ddaeth Gerwyn hefyd yn llywodraethwr ar Ysgol Gymunedol Tal-y-bont yn ddiweddar iawn.

PP: *Beth yw eich hoff lyfr Cymraeg?*

Gerwyn Jones: *"Pysgod Dŵr Croyw" gan Emrys Evans*

PP: *Pam mai dyma eich hoff lyfr?*

GJ: *Fe dderbyniais y llyfr pan roeddwn yn 11 oed ac yn gadael Ysgol Tal-y-bont i fynd i Benweddig oddi wrth Gwilym ac Eleri Huws a'r teulu, a oedd bryd hynny'n byw yn Nhŷ Gwyn. Rwy'n hoff o bysgota ers yn grwt ac rwy'n parhau i gyfeirio at y llyfr 21 mlynedd yn ddiweddarach. Roeddwn hefyd yn hoff iawn o glawr y llyfr pan yn grwt am ei fod yn fy atgoffa o 'Falls Berthlwyd'.*

PP: *Pa lyfrau eraill rydych yn mwynhau eu darllen?*

GJ: *Pan rwy'n cael cyfle, rwy'n mwynhau darllen hunangofiannau. Fodd bynnag, rwy' erbyn hyn yn treulio tipyn o amser yn darllen i Glain ac mae llyfrau o'r gyfres "Rala Rwdins" yn boblogaidd iawn ar hyn o bryd.*

SWDOCW

Sut i chwarae
Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob bocs yn cynnwys y rhifau 1-9.

Enw:

Cyfeiriad:

Côd Post

Rhif Ffôn:

Gan fod ganddoch ddeufis, mae'r pos y tro hyn yn un anodd! Cystadleuaeth newydd ym mis Medi!

Atebion i Geraint Evans, Garnwen, Tal-y-bont, erbyn 5 Medi

Enillydd Swdocw mis Mai oedd Ann Thomas, Cilgant y Coed, Taliesin.

		8					4	3
	4			3				7
			1			2	5	
		6	4		5	8		
	1	7	6		3	4	2	
		4	2		9	7		
	8	2			1			
4				2			8	
1	9					6		